1872 PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY | 1872 150 2022

# Canllaw Byr


1872

# Dyma Aberystwyth

**Croeso i'n canllaw anffurfiol am y brifysgol: ymgeisio, astudio, byw a gadael.**

Hoffem egluro sut mae popeth yn gweithio a pham ei fod yn gyfnod mor gyffrous - a rhoi cipolwg i chi ar sut fyddai eich bywyd fel myfyriwr yma.





# Ein Pynciau

Mae addysg prifysgol yn agor drysau i fydoedd astudio hollol newydd i chi, sy'n golygu y gallwch gael eich arwain gan eich diddordebau a'r detholiad eang o bynciau a modiwlau sydd ar gael, yn ogystal â'r arbenigedd ymchwil a dysgu byd-enwog. Mae'n siŵr y bydd llawer o'r pynciau'n swnio'n gyfarwydd i chi, ond o ran yr hyn y gallwch ei wneud gyda nhw - mae'r posibiliadau yr un mor eang â'ch dychymyg.



## Cyfrifeg a Chyllid

Mae Cyfrifeg a Chyllid yn ymdrin â chysyniadau arian, busnes a rheolaeth, gyda phwyslais ar yrfaoedd proffesiynol yn y meysydd hyn. Mae cyfrifeg yn ymwneud â dadansoddi gwybodaeth ar gyfer gwahanol agweddau ar fusnesau, ond ymwneud â chronfeydd ariannol busnesau yn unig y mae cyllid. Bydd ein cyrsiau, sydd wedi cael sawl achrediad, yn eich helpu i ddatblygu'r wybodaeth a'r sgiliau proffesiynol sydd eu hangen, yn deillio o'r sector cyfrifeg a chyllid byd-eang.

## Amaethyddiaeth

Mae angen ffermwyr, rheolwyr a chynghorwyr dawnus a hynod fedrus ar y byd er mwyn sicrhau bod y diwydiant hanfodol, amrywiol a thechnolegol hwn yn barod ar gyfer yr heriau sydd o'n blaenau. Yn Aberystwyth, mae ein myfyrwyr yn elwa o'r amrywiaeth mawr o dir ffermio a thirwedd amaethyddol, sy'n cael eu ffermio'n fasnachol gan yr adran ac yn cael eu defnyddio at ddibenion dysgu ac ymchwil.

## Gwyddorau Anifeiliaid a Dyfrol

Mae'r Gwyddorau Anifeiliaid a Dyfrol yn Aberystwyth yn cynnwys Ymddygiad Anifeiliaid, Gwyddor Anifeiliaid, Biowyddorau Ceffylau a Milfeddygol, Gwyddor Ceffylau, Astudiaethau Ceffylau, Bioleg y Môr a Dŵr Croyw, Cadwraeth Bywyd Gwyllt a Sŵoleg. Byddwch yn astudio mewn athrofa o safon fyd-eang y mae ei hymchwil yn cyfrannu at ddatrys materion byd-eang megis atal heintiau marwol, sicrhau cyflenwadau bwyd a thyfu cnydau mewn pridd sy'n dueddol i ddioddef sychder, datblygu tanwyddau cynaliadwy ac ecogyfeillgar, ac astudio effeithiau newid yn yr hinsawdd ar ecosystemau.

## Celf a Ffotograffiaeth

Mae cartref yr Ysgol Gelf yn adeilad rhestredig godidog, cofrestredig Gradd-II, lle mae hanes a thraddodiad yn cyfuno ag ymarfer cyfoes. Yn y lle hwn, mae celf yn cael ei chreu, ei thrafod, ei harddangos a'i phrofi. Byddwch yn cael eich trochi mewn ymarfer celfyddydol a churadurol, ac mewn ymchwil i hanes celf.

## Gwyddorau Biolegol

Mae ecoleg gyfoethog Cymru yn darparu'r amgylchedd perffaith i ddatblygu a mireinio eich sgiliau fel biolegydd. Gan gyfuno gwaith damcaniaethol gwyddonol â gwaith ymarferol yn y labordy a'r maes, byddwch yn datblygu gwell dealltwriaeth am y byd o'ch cwmpas a sut mae'n gweithio.

## Busnes a Rheolaeth

Mae Busnes a Rheolaeth yn ddisgyblaeth ymarferol ac academaidd sy'n ymdrin â phynciau sy'n amrywio o Arweinyddiaeth, Ymddygiad Sefydliadol a Thechnoleg Gwybodaeth, i Ddadansoddeg Data, Rheoli'r Gadwyn Gyflenwi a Logisteg Fyd-eang. Mae gradd mewn Rheolaeth a Busnes fel arfer yn cynnwys elfennau o ddisgyblaethau eraill fel Cyfrifeg a Chyllid, Marchnata, Economeg a Thwristiaeth.

## Astudiaethau Plentyndod

Mae'n debyg i Addysg, ond mae hefyd agweddau ar bwnc Astudiaethau Plentyndod sydd yn unigryw. Yn y bôn, mae'n ymwneud â sut mae plant yn dysgu a datblygu, ond hefyd sut mae plentyndod yn cael ei ddeall mewn gwahanol gyd-destunau a diwylliannau, a sut mae gwasanaethau amrywiol i blant a theuluoedd yn cael eu trefnu a'u darparu.

## Newid Hinsawdd
Erbyn hyn mae'n glir bod angen mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd ar frys. Rhan allweddol o'n hymateb yw sicrhau bod gan bobl y wybodaeth, y sgiliau a'r rhinweddau angenrheidiol i adeiladu dyfodol sy'n wyrdd, yn isel ei allyriadau, ac yn wydn o ran yr hinsawdd. Wrth i'n heconomïau drawsnewid wrth ymateb i'r her hon, mae angen mwyfwy o raddedigion angerddol sy'n gallu bodloni gofynion y farchnad swyddi sy'n newid. Mae angen arbenigwyr ar newid yn yr hinsawdd i helpu i arwain mewn busnesau, y llywodraeth a'r sector cyhoeddus, sefydliadau anllywodraethol ac ymchwil.

## Cyfrifiadureg
O ddatblygu camerâu i'w defnyddio mewn teithiau i'r gofod, i ddatblygu ffyrdd gwell o sgrinio am ganserau, mae ein hymchwil wedi cyfrannu at rai o ddigwyddiadau pwysicaf ein hanes.

## Troseddeg
Mae Troseddeg yn bwnc eang a hynod ddiddorol sy'n ystyried beth sy'n achosi troseddu, effeithiau troseddau, a sut i reoli ac atal troseddu. Yn y pen draw, wrth ddeall beth sy'n achosi troseddu, mae troseddegwyr yn chwilio am ffyrdd o atal troseddu a lliniaru'r niwed a achosir.  Mae'n ystyried beth yw canlyniadau labelu rhywun yn 'droseddwr', a sut mae cymdeithas yn ymateb i ymddygiad troseddol drwy ddod o hyd i'r rhai sy'n cyflawni troseddau, a'u cosbi a'u hailsefydlu.

## Drama a Theatr
Yn Aberystwyth, rydym yn ymdrin â phynciau Drama a Theatr yn y ffordd ehangaf bosib. Yma, rydym yn adeiladu ar sylfaen eich diddordebau presennol, eich gwybodaeth a'ch sgiliau mewn drama, theatr a pherfformio, ond dros y tair blynedd byddwn yn anelu at herio'ch rhagdybiaethau a'ch disgwyliadau, i ehangu ac estyn eich safbwynt ar beth yw drama a theatr.

## Gwyddorau Ecolegol
Mae Ecoleg yn astudio sut mae organebau'n rhyngweithio â'i gilydd ac â'r amgylchedd naturiol. Mae angen cenhedlaeth newydd o Ecolegwyr a all ymateb i'r heriau amgylcheddol fydd yn ein hwynebu yn y dyfodol, a hynny ar frys. Mae'r heriau hyn yn cynnwys dinistrio cynefinoedd, newid yn yr hinsawdd, micro-blastigau, clefydau – mae'r rhestr yn ddiddiwedd.

## Addysg
Mae Addysg yn astudio sut rydyn ni'n dysgu – sut rydyn ni'n meddwl, sut rydyn ni'n derbyn gwybodaeth a'i phrosesu, deall cysyniadau newydd, a sut rydyn ni'n datblygu sgiliau newydd. Mae hefyd yn ymwneud ag astudio sut mae dysgu'n cael ei gefnogi'n fwyaf effeithiol gan ysgolion, athrawon, a chan rieni a chymunedau, fel y gall plant a phobl ifanc gyflawni eu potensial llawn.

## Economeg
Mae Economeg yn astudio dewis; yn Aberystwyth rydym yn rhoi cyfle i fyfyrwyr i ymchwilio i sut y mae pobl yn gwneud eu dewisiadau. P'un a ydynt yn craffu ar gwsmeriaid a chorfforaethau, neu'n dadansoddi grwpiau a llywodraethau, mae ein myfyrwyr yn datblygu sgiliau i ddadansoddi'r byd o'u blaenau a llunio casgliadau am yr hyn sy'n debygol o ddigwydd yn y dyfodol.

## Saesneg ac Ysgrifennu Creadigol
Rydym yn cynnig cyrsiau hyblyg sy'n cyfuno elfennau gorau astudiaethau llenyddol traddodiadol â dulliau cyffrous ac arloesol o ymdrin â'n pynciau. O Chaucer i Twitter, mae grym y gair ysgrifenedig yn gallu darparu gwybodaeth, ein herio a newid ein dirnadaeth. Yn Aberystwyth gallwch sianelu'ch angerdd am ddarllen ac ysgrifennu, a gwneud eich cyfraniadau'ch hun tuag at ein treftadaeth lenyddol hir ac at lenyddiaeth y dyfodol.






























## Astudiaethau Ffilm a Theledu

Mae ffilm a theledu yn eiriau cyfarwydd i bobl, ond mae gennym ymagwedd benodol tuag at astudio Ffilm a Theledu yma yn Aberystwyth. P'un a oes gennych ddiddordeb yn y ddelwedd symudol fel ffurf gelfyddydol neu fel diwydiant, p'un a oes gennych ddiddordeb mewn creu ffilmiau, neu astudio testunau ffilm a theledu eu hunain, bydd ein gradd amrywiol mewn Astudiaethau Ffilm a Theledu ym Mhrifysgol Aberystwyth yn rhoi digon o gyfle i chi archwilio gwahanol ddulliau creadigol, technegol a beirniadol mewn cymuned fywiog.

## Daearyddiaeth, Gwyddorau'r Ddaear a'r Amgylchedd

Aberystwyth yw'r lle perffaith i astudio Daearyddiaeth a Gwyddorau'r Ddaear a'r Amgylchedd. Mae'r dref yn sefyll rhwng bryniau'r Canolbarth ac arfordir y Gorllewin, ac felly cewch fanteisio ar yr holl adnoddau naturiol yma a fydd yn eich cynorthwyo â'ch astudiaethau. Mae ein cyrsiau Daearyddiaeth, Daearyddiaeth Ddynol a Daearyddiaeth Ffisegol wedi'u hachredu gan y Gymdeithas Ddaearyddol Frenhinol.

## Hanes

Mae hanes yn cael ei ddysgu ym Mhrifysgol Aberystwyth ers y 1870au sy'n golygu ein bod ymhlith yr adrannau Hanes hynaf yng Nghymru. Yn Aber, cewch ddysgu mwy am y Tuduriaid, Almaen yr Ugeinfed Ganrif, neu'r Tsieina Fodern. Cynigiwn amrywiaeth eang o gyfnodau hanesyddol a fydd yn apelio at eich diddordebau a hogi'ch awch am ddysgu mwy am hanes.

## Astudiaethau Gwybodaeth

Wedi'i sefydlu ym 1964, mae'r Adran Astudiaethau Gwybodaeth yn darparu addysg o'r radd flaenaf i'r rhai sy'n gweithio neu'n cynllunio gyrfa ym meysydd llyfrgelloedd, archifau, a byd cyfnewidiol gwybodaeth ddigidol.

## Y Gyfraith

Mae'r Gyfraith yn cael ei dysgu yn Aberystwyth ers 1901. Mae gan yr Adran draddodiad balch o ysgolheictod ac ymchwil ac mae wedi paratoi cenedlaethau o bobl o bedwar ban byd ar gyfer gyrfaoedd proffesiynol ac ar gyfer bywyd yn gyffredinol. Mae ein holl raddau israddedig yn y gyfraith yn cynnig sylfaen dda ar gyfer ymuno â'r proffesiynau cyfreithiol ac i'r rhai sy'n ymbaratoi am y cymhwyster newydd, yr Arholiad Cymhwyso Cyfreithwyr.

## Mathemateg

Mathemateg yw gwyddor rhifau a'u gweithrediadau. Mae mathemateg yn cael eu cymhwyso i bob cangen o wyddoniaeth ac i lawer o feysydd busnes a chyllid. Mae hi wrth wraidd yr holl dechnoleg fodern. Mae gennym ystod o gynlluniau gradd gan gynnwys anrhydedd sengl mewn mathemateg, mathemateg bur a chymhwysol, modelu mathemategol ac ystadegaeth.

## Astudiaethau'r Cyfryngau a Chyfathrebu

Nod graddau Astudiaethau'r Cyfryngau a Chyfathrebu yw eich paratoi ar gyfer gwaith mewn diwydiannau sy'n gysylltiedig â'r cyfryngau a'ch galluogi i ddadansoddi'n feirniadol sut mae'r cyfryngau'n adlewyrchu'r byd, yn cynrychioli'r byd ac yn dylanwadu arno.

## Ieithoedd Modern

Ni fu erioed amser mwy cyffrous i astudio ieithoedd. Gydag ieithoedd eraill yn cystadlu â'r Saesneg i fod yn brif iaith gyfathrebu fyd-eang, mae mwy o resymau nag erioed dros fod yn ddwyieithog neu hyd yn oed yn amlieithog. Yma yn Aberystwyth, rydym yn cynnig amrywiaeth o gyrsiau i astudio Ffrangeg, Sbaeneg, Almaeneg ac Eidaleg, naill ai fel rhaglenni gradd anrhydedd sengl neu ar y cyd yn achos Sbaeneg a Ffrangeg, neu yn rhan o radd gyfun yn achos Almaeneg ac Eidaleg.

## Nyrsio
Rydym yn cynnig cyrsiau BSc Nyrsio Oedolion a BSc Nyrsio Iechyd Meddwl. Mae ein cyrsiau Nyrsio yn cynnig profiad dysgu pwrpasol ac agos-atoch. Mae'r Ganolfan Addysg Gofal Iechyd newydd gael ei sefydlu ac mae'n gartref i'r Uned Sgiliau Clinigol lle ceir y dechnoleg efelychu ddiweddaraf er mwyn i chi ddysgu sgiliau clinigol mewn amgylchedd diogel a chefnogol.

## Gwleidyddiaeth a Chysylltiadau Rhyngwladol
Gyda changhennau sy'n cwmpasu cudd-wybodaeth a diogelwch, newid yn yr hinsawdd a datblygu byd-eang, mae ein rhaglenni Gwleidyddiaeth Ryngwladol yn darparu amgylchedd eithriadol ar gyfer astudio'r materion a'r cysyniadau mwyaf arwyddocaol sy'n dylanwadu ar wleidyddiaeth a chysylltiadau rhyngwladol heddiw.

## Ffiseg
Mae ein ffisegwyr ni ymhlith arbenigwyr pennaf y Deyrnas Unedig ac maent yn gweithio ar brosiectau sy'n amrywio o ddyfeisio deunyddiau newydd a chyfarpar newydd i deithiau planedol ac astudiaethau arloesol ar yr hyn sy'n digwydd yn yr Haul.

## Seicoleg
Gwyddor y Meddwl ac Ymddygiad yw Seicoleg; mae hynny'n golygu ei bod yn bwnc eang sy'n ceisio deall ymddygiad dynol, o'r esboniadau biolegol ar sut mae'r ymennydd yn gweithio, i'r ddealltwriaeth gymdeithasol am sut rydym yn rhyngweithio â'n hamgylchedd ac yn ymaddasu ato, neu'n newid yn wybyddol wrth i ni fynd yn hŷn.

## Cymdeithaseg
Drwy archwilio'r dirwedd wleidyddol ac ystyried materion cyfoes fel troseddu, addysg, lles cymdeithasol, anghydraddoldeb, crefydd, hil a rhywedd, a thrwy ddefnyddio safbwyntiau damcaniaethol sy'n seiliedig ar dystiolaeth i feirniadu'r gymdeithas, gall cymdeithasegwyr arwain at newid trawsnewidiol i greu byd gwell i bawb.

## Gwyddor Chwaraeon ac Ymarfer Corff
Drwy gyfuno disgyblaethau fel Ffisioleg, Seicoleg a Biomecaneg, Gwyddor Chwaraeon ac Ymarfer Corff mae Aberystwyth yn rhoi cyfle i chi i ddysgu'r sgiliau cymhwysol, y wybodaeth a'r cymwyseddau a fydd yn sylfaen ar gyfer eich gyrfa yn y dyfodol. Mae Gwyddonwyr Chwaraeon ac Ymarfer Corff wedi gweithio gydag athletwyr sydd wedi cystadlu ar lefel pencampwriaethau Ewrop a'r byd.

## Twristiaeth a Thwristiaeth Antur
Gall twristiaeth gynnwys yr hyn yr ydym yn meddwl amdano fel twristiaid fel arfer (tywod, y môr a'r haul, a thynnu hunluniau dramor) ond mae hefyd yn cynnwys ymweld â ffrindiau a pherthnasau, pererindodau, twristiaeth iechyd ac unrhyw fath arall o brofiad i ffwrdd o'ch prif gartref. Mae ein graddau wedi'u hachredu gan y Sefydliad Rheoli Twristiaeth, sy'n ychwanegu dilysrwydd at ein cyrsiau yng ngolwg darpar gyflogwyr, ac yn ffordd arall o gadarnhau ansawdd ein rhaglenni astudio.

## Milfeddygaeth
Mae Ysgol Gwyddor Filfeddygol Aberystwyth yn darparu gradd BVSc Gwyddor Milfeddygaeth ar y cyd â'r Coleg Milfeddygaeth Brenhinol. Yn hytrach na chynnig i chi y cyfle i astudio mewn un sefydliad, mae ein gradd Baglor Gwyddor Milfeddygaeth ni yn cynnig i chi y cyfle i hyfforddi mewn dau sefydliad sy'n arwain y byd.

## Cymraeg ac Astudiaethau Celtaidd
Mae Aberystwyth yn cynnig cyfleoedd unigryw i'w myfyrwyr i ddysgu Llydaweg, Gwyddeleg, Gaeleg yr Alban, a'r Gymraeg - o safon dechreuwyr i siaradwyr hyderus a rhugl. Aberystwyth yw cartref Cymraeg Proffesiynol ac mae'r cynllun hwnnw, sy'n arwain y sector, yn boblogaidd ymhlith myfyrwyr a chyflogwyr sy'n chwilio am 'safon aur' yn yr iaith.










# Pa fath o radd?





Pan fyddwch chi'n dechrau edrych ar brifysgolion, byddwch yn clywed llawer o dermau anghyfarwydd, hyd yn oed am y math o radd yr hoffech ei hastudio neu'r 'llwybr' yr hoffech ei ddilyn.

Yn Aber, rydym yn cynnig pob math o raddau, ar lefel israddedig ac uwchraddedig. Gallwch astudio ar sail amser llawn neu'n rhan-amser, a gallwch hefyd astudio dau bwnc yn rhan o'r un radd, gyda ffocws cyfartal neu wahanol ar bob un. Gallwch dreulio blwyddyn yn gweithio i'r math o gyflogwr yr hoffech fynd ymlaen i gael gyrfa â nhw, a hyd yn oed treulio blwyddyn yn astudio mewn prifysgol dramor!

## ▲ Graddau anrhydedd sengl

Os oes gennych chi ddiddordeb penodol mewn un pwnc yn unig, hwn o bosibl yw'r llwybr iawn i chi. Mae cwrs gradd anrhydedd sengl yn golygu y byddwch chi'n astudio un pwnc yn unig, megis Bioleg neu Hanes, ac yn graddio ynddo, fel rheol ar ôl tair blynedd.

## ▲ Graddau anrhydedd cyfun

Ydych, rydych wedi dyfalu'n gywir! Mae gradd anrhydedd cyfun yn golygu y byddwch chi'n astudio dau bwnc. Nid oes raid iddynt fod yn gysylltiedig â'i gilydd na hyd yn oed o'r un ddisgyblaeth! Mae'n ffordd dda o'ch cyflwyno i fwy o wybodaeth a gwahanol fathau o wybodaeth, a ffyrdd o ddysgu a meddwl am y byd.

Gallwch astudio pob pwnc yn hafal, neu gallwch ddewis canolbwyntio mwy ar un (eich 'prif' bwnc) na'r llall (eich 'is' bwnc). Cynlluniwyd graddau anrhydedd cyfun i fod yn hyblyg, felly drwy gydol eich cwrs gallwch chi benderfynu drosoch eich hun sut y caiff ei strwythuro.

## Anrhydeddau sengl gyda blwyddyn integredig o astudiaeth sylfaen

Mae ein cyrsiau anrhydedd sengl gyda blwyddyn integredig o astudiaeth sylfaen yn llwybr gwych i bynciau sy'n agos at eich calon, ond nad oes gennych lawer o brofiad ynddynt. Maent yn berffaith os hoffech chi newid cyfeiriad o'r hyn y gwnaethoch ei astudio yn yr ysgol neu'r coleg, neu os na chawsoch y graddau yr oeddech wedi gobeithio amdanynt wrth adael.

Mae astudio yn y brifysgol yn gwbl wahanol i astudio yn yr ysgol a'r chweched dosbarth - mae llawer o fyfyrwyr yn darganfod ei bod yn llawer gwell ganddynt y dysgu annibynnol a'r meddwl beirniadol sy'n gysylltiedig ag astudio yn y brifysgol, ac mae astudio blwyddyn sylfaen yn ffordd dda o bontio'r gagendor hwn!

## Blwyddyn integredig mewn diwydiant / astudio dramor

Mae rhai o'n graddau'n rhoi cyfle i chi dreulio blwyddyn yn gweithio i gwmni o fewn y diwydiant y mae'ch gradd yn canolbwyntio arno, neu i astudio dramor gydag un o'n partneriaid ar draws y byd. Mae hwn yn gyfle gwych i gael profiad ymarferol, i weld a yw math penodol o waith yn addas i chi, i ddechrau gwneud cysylltiadau proffesiynol, neu cael blas ar ddiwylliant arall.

Mae blwyddyn integredig mewn diwydiant yn troi eich gradd yn rhaglen pedair blynedd. Daw ein myfyrwyr yn ôl o'u blwyddyn ym myd gwaith / astudio dramor wedi adfywio, gyda ffocws newydd ac yn barod i gymryd y camau nesaf ar eu taith academaidd a phroffesiynol.

> Fe wnaeth yr adran yn siŵr ein bod yn barod i weithio mewn diwydiant drwy gynnal nifer o ddigwyddiadau i ymarfer gwneud ceisiadau, canolfannau asesu a meithrin sgiliau. Gwnaethant hefyd annog myfyrwyr i dreulio blwyddyn mewn diwydiant - fe weithiais i ym mhencadlys Cwmni Walt Disney Ewrop yn Llundain!

Natalia Miller, Cyfrifiadureg





## Cyrsiau Cymraeg

Os ydych chi'n dod o gefndir Cymraeg, efallai yr hoffech astudio'r cyfan, neu ran o'ch gradd yn Gymraeg. P'un a ydych chi'n rhugl neu'n ddysgwr, mae yna gyrsiau ble gellir astudio modiwlau yn Gymraeg neu Saesneg, sy'n golygu y gall astudio yn y brifysgol eich helpu i fireinio eich sgiliau iaith hyd yn oed os ydych chi'n astudio yn Saesneg yn bennaf.

## Pam astudio yn Gymraeg?

Roedd 99% o'r graddedigion a astudiodd yn Gymraeg mewn gwaith neu'n astudio ymhellach 6 mis ar ôl graddio.*

Mae galw am weithwyr proffesiynol ifainc sy'n gallu gweithio'n ddwyieithog ac mae cyflogau ar gyfer rolau o'r fath yn uwch, ar gyfartaledd.

Rydyn ni'n cynnig dewis helaeth o ysgoloriaethau i fyfyrwyr sy'n astudio yn Gymraeg.

*HESA, 2018



# Ysgoloriaethau a Bwrsariaethau

## Cymorth Ariannol yn y Brifysgol

Mae Ysgoloriaethau a Bwrsariaethau yn darparu arian ychwanegol y gallwch ei ddefnyddio i'ch helpu i dalu am eich costau byw ac astudio yn y brifysgol.


Mae Ysgoloriaethau a Bwrsariaethau yn darparu arian ychwanegol y gallwch ei ddefnyddio i'ch helpu i dalu am eich costau byw ac astudio yn y brifysgol.

Os nad yw'ch benthyciad myfyriwr yn talu am eich costau prifysgol, efallai y byddwch yn gymwys i wneud cais am unrhyw ysgoloriaeth y mae Prifysgol Aberystwyth yn ei chynnig. Nid oes rhaid i chi dalu ysgoloriaeth na bwrsariaeth yn ôl i'r Brifysgol; mae'n arian sy'n cael ei ddyfarnu i chi os ydych chi'n gymwys iddo.

Yn Aberystwyth, rydym yn cynnig pecyn hael o ysgoloriaethau a bwrsariaethau gwerth miloedd o bunnau i helpu ein myfyrwyr i dalu am eu costau byw. Mae gennym amrywiaeth o gyllid sy'n amrywio o wobrau academaidd, dyfarniadau i bynciau penodol, ac ysgoloriaethau am lwyddiant ym meysydd chwaraeon a cherddoriaeth, cymorth i'r rhai sy'n gadael gofal, gofalwyr ifanc a myfyrwyr sydd wedi ymddieithrio oddi wrth eu rhieni. Rydym hefyd yn cynnig ysgoloriaethau i fyfyrwyr sy'n dymuno astudio'r cyfan neu ran o'u cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg.

Fe allwch ddal mwy nag un o'r dyfarniadau hyn ar yr un pryd, sy'n gwneud eich pecyn ariannol yn fwy gwerthfawr.

Ewch i'n gwefan i weld yr ystod lawn o Ysgoloriaethau, Bwrsariaethau a Gwobrau sydd ar gael: **www.aber.ac.uk/ysgoloriaethau**







# Mae'ch gyrfa'n dechrau yma

Mae'ch amser yn y brifysgol yn daith lle y cewch gyfleoedd newydd i ddarganfod ac archwilio, gan ddysgu mwy amdanoch chi'ch hun, eich opsiynau i'r dyfodol a sut mae'r rhain yn cyd-fynd â'r byd sy'n newid o'ch cwmpas.

Mae rhan o'r daith honno'n ymwneud â dysgu gwybodaeth a sgiliau, meithrin priodweddau, a chael profiadau – a'r hyn mae hynny'n ei olygu, mewn gwirionedd, yw manteisio'n llawn ar bob agwedd ar fywyd yn y brifysgol ac ar bopeth mae'n ei gynnig i chi.


Cofiwch wneud y gorau o'ch amser pan nad ydych yn astudio drwy gyfoethogi'ch bywyd fel myfyriwr – beth am wirfoddoli i weithio dros achos da neu ymgymryd â swydd ran-amser fel 'Llysgennad' y Brifysgol, neu wneud cais am un o'n cynlluniau interniaeth? .

**I gael rhagor o wybodaeth am Yrfaoedd, ewch i: aber.ac.uk/gyrfaoedd**

> O'r eiliad y cyrhaeddais Aberystwyth ar gyfer y Diwrnod Agored, syrthiais mewn cariad â'r dref a'r brifysgol. Y syniad o dreulio tair blynedd yn byw ger y lli yn y swigen brysur, ogoneddus hon yng nghanolbarth cefn gwlad Cymru, roeddwn i'n gwybod ar unwaith mai dyma'r lle i mi.

Arfon Rowlands, BSc Gwyddor Chwaraeon ac Ymarfer Corff

# Cyfleoedd byd-eang





**Mae Prifysgol Aberystwyth yn cynnig amrywiaeth cyffrous o opsiynau ichi fynd dramor tra byddwch yn astudio am eich gradd.**

## Astudio neu weithio dramor am gyfnod byr

O'ch blwyddyn gyntaf yn Aberystwyth, bydd cyfleoedd ichi astudio neu weithio dramor am gyfnodau byr, o dri diwrnod i wyth wythnos. Bydd y cyfleoedd hyn yn cynnig llawer o fanteision heb fynd â chi i ffwrdd o'ch astudiaethau a'ch ymrwymiadau eraill am gyfnod rhy hir.

## Astudio mewn prifysgol bartneriaethol ryngwladol

Yn Aberystwyth, gallwch ddewis cyrsiau gradd sy'n cynnwys semester yn astudio dramor yn ystod eich ail flwyddyn, neu dreulio'ch trydedd flwyddyn gyfan yn astudio dramor.

Os byddwch yn dewis gradd mewn ieithoedd yn Aberystwyth, byddwch yn astudio neu'n gweithio dramor yn ystod trydedd flwyddyn y cwrs gradd. Bydd y cyfnod hwn yn eich helpu i ddod yn fwy rhugl ac i fagu'ch hyder yn eich dewis ieithoedd ac yn eich trwytho yn niwylliant yr ieithoedd hynny.

## Gweithio dramor yn ystod eich blwyddyn mewn diwydiant

Os byddwch yn dewis gradd gyda blwyddyn integredig mewn diwydiant, cewch ddewis gwneud hyn dramor.

## Cymorth

P'un a ydych yn bwriadu mynd dramor am gyfnod byr neu am flwyddyn gyfan, fe gewch chi ein cefnogaeth yma yn Aberystwyth. Bydd y tîm Cyfleoedd Byd-eang, ochr yn ochr â'r cydlynydd academaidd neu gydlynydd y flwyddyn mewn diwydiant yn eich adran, a'r tîm Cymorth i Fyfyrwyr, yn gweithio gyda chi er mwyn sicrhau'ch bod yn hollol barod ar gyfer y profiad.












Cyn i chi ymadael, bydd digwyddiadau wedi'u trefnu ar eich cyfer er mwyn sicrhau eich bod yn gwybod beth i'w ddisgwyl yn y wlad y byddwch yn ymweld â hi, a bod yr holl waith papur teithio wedi'i baratoi. Byddwch hefyd yn dysgu sut i wneud y mwyaf o'r profiad a sut i ddod o hyd i gymorth os bydd ei angen. Ar ôl dychwelyd, bydd gweithdai a gynhelir gyda'r Gwasanaeth Gyrfaoedd yn eich cynorthwyo i fyfyrio am y profiad a gwneud y mwyaf ohono, gan eich annog i ystyried sut i gynnwys eich profiad dramor mewn ceisiadau am swyddi ac mewn sgyrsiau â chyflogwyr yn y dyfodol.

## Cyllid

Bydd tîm Cyfleodd Byd-eang Prifysgol Aberystwyth yn eich cynghori am y cyllid sydd ar gael i gefnogi'ch cyfnod dramor. Mae arian ar gael drwy gynlluniau a gynigir gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y Deyrnas Unedig er mwyn hybu astudio a gweithio dramor. Mae arian ychwanegol ar gael i fyfyrwyr o grwpiau difreintiedig.

Mae Cronfa Cyfleoedd Ewropeaidd Aberystwyth, a sefydlwyd drwy rodd hynod hael gan un o gyn-fyfyrwyr Aber, yn unigryw i Aberystwyth. Mae'r gronfa hon yn cefnogi costau byw a theithio am gyfnodau byr o astudio neu weithio yng ngwledydd yr Undeb Ewropeaidd ac Ardal Economaidd Ewrop. Mae holl fyfyrwyr Aberystwyth yn cael yswiriant teithio am ddim ar gyfer eu cyfnod dramor.

## Manteision astudio a gweithio dramor

- Rhoi hwb i'ch hyder
- Gwella'ch sgiliau cyfathrebu, rhyngddiwylliannol a rhyngbersonol
- Meithrin eich hyblygrwydd a'ch gwytnwch
- Eich helpu i fod yn agored i gyfleoedd rhyngwladol
- Buddiol i'ch gyrfa.

















## Zoe Perryman

**F802 Daearyddiaeth gyda Blwyddyn Integredig yn Astudio Dramor**

**Ble est ti'n rhan o dy Gyfle Byd-eang di?** Prifysgol Bergen, Norwy

**Beth oedd y peth gorau am y profiad?** Y bobl a'r golygfeydd oedd y pethau gorau am y profiad. Mae gen i lawer o atgofion a fydd yn aros gyda fi am bobl arbennig mewn gwlad brydferth!

**Beth oedd y peth mwyaf heriol am y profiad?** Y peth mwyaf heriol i mi oedd dod i arfer â'r dulliau addysgu a marcio newydd yn y brifysgol yno, gan eu bod nhw'n wahanol i'r hyn sy'n digwydd yn fy adran i yma.

**Pa dri gair fyddet ti'n eu defnyddio i ddisgrifio'r cyfnod?** Dylanwadol, syfrdanol, blinedig (ond mewn ffordd dda!)

**Y cyngor gorau cyn mynd dramor?** Cymerwch ran ym mhopeth a siaradwch â phawb. Dim ond am gyfnod byr y byddwch chi yno, ond bydd y cysylltiadau y gwnewch chi yno'n rhai hir-dymor.



# Bywyd ar y Campws

Mae symud ymlaen o ysgol neu goleg yn gam enfawr. Mae symud i dref newydd yn gam mwy fyth. Dyna pam y gwnaethon ni adeiladu campws y byddwch chi eisiau ei alw'n gartref.

Mae Aber yn brifysgol campws. Golyga hyn mai ar ein prif gampws, Penglais, y byddwch chi'n astudio ac yn cymdeithasu, er y cynhelir eich dosbarthiadau mewn man arall o bosib. Bydd llawer ohonoch chi'n cysgu ar y campws hefyd! Ond does dim gwahaniaeth p'un a ydych chi'n byw ar y campws neu oddi arno. Mae Penglais dafliad carreg yn unig o ganol tref Aberystwyth a'i glan-môr hanesyddol gyda golygfeydd godidog.

Rydyn ni'n gwneud pob ymdrech i ddarparu popeth sydd ei angen arnoch i drawsnewid yn hapus a llwyddiannus i fywyd prifysgol, ac mae'r gymuned glòs sy'n ffynnu ym Mhenglais wrth wraidd hyn. Mae Campws Penglais yn llawn adnoddau, cymdeithasau a phobl sydd oll yn ymroddedig i sicrhau eich bod yn llwyddiannus yn eich astudiaethau, eich bod yn cadw'n iach ac yn brysur, a bod bywyd cymdeithasol cyffrous a bywiog ar gael i chi.



# Llety

Mae mynd i'r brifysgol yn gam mawr, ac i'r rhan fwyaf o fyfyrwyr dyma fydd y tro cyntaf iddynt fyw oddi cartref.

Er mwyn gwneud y newid hwn mor ddidrafferth â phosibl, beth bynnag fo'ch anghenion byw, mae gennym rywbeth a fydd yn addas i chi:

- dewisiadau arlwyo a hunanarlwyo
- ystafelloedd safonol neu rai sy'n cynnwys eu cyfleusterau ymolchi eu hun.

Rydym yn gwarantu llety yn y Brifysgol i holl fyfyrwyr y flwyddyn gyntaf. Tra byddwch yn byw yn ein llety, nid oes angen poeni am gostau cyfnewidiol eich biliau, oherwydd bod ein ffi llety yn cynnwys y cyfleustodau, band-eang ffibr-optig ac yswiriant cynnwys personol. Ar ben hynny, fel un o'n preswylwyr, byddwch yn cael aelodaeth blatinwm o'r gampfa yng Nghanolfan Chwaraeon y Brifysgol yn rhad ac am ddim. Bydd yr aelodaeth yn golygu y cewch ddefnyddio'r gampfa, y pwll nofio a'r sawna, a mynd i unrhyw ddosbarthiadau ffitrwydd, yn rhad ac am ddim, heb gyfyngiadau.

Dewch ar ein taith rithwir er mwyn archwilio ein llety: **www.aber.ac.uk/virtual-tour**


















# Astudio yn eich ffordd chi

Mae cymuned yn bwysig yn y Brifysgol, ond mae annibyniaeth yr un mor bwysig. Bydd ein hamrywiaeth o fannau astudio yn eich helpu i ddarganfod y cydbwysedd sy'n iawn i chi.

Yn Aber, deallwn, yn yr un modd ag y mae pawb yn dysgu'n wahanol, bod pawb yn astudio'n wahanol hefyd. Dyna pam mae Llyfrgell Hugh Owen, a gafodd ei hailwampio'n ddiweddar, ar agor 24/7 ac yn cynnig mannau astudio i'w defnyddio pryd bynnag sy'n gyfleus i chi. Mae yna Lyfrgell Gwyddorau Ffisegol benodol ar gael hefyd, ynghyd ag 800 o gyfrifiaduron ledled y campws sydd ar gael i bawb.

Rydym wedi creu mannau astudio dynamig ledled yr holl gampws, gan gynnwys lolfeydd anffurfiol i fyfyrwyr (perffaith ar gyfer gwaith grŵp!), peiriannau byrbrydau a seddi cyfforddus. Os ydych chi'n chwilio am newid bach, gallwch hefyd fynd i'r ystafell ddarllen yn y Llyfrgell Genedlaethol, drws nesaf i Gampws Penglais.

Trwy ddefnyddio ein hamgylchedd dysgu rhithwir, Blackboard, gallwch weld deunydd eich cyrsiau ar unrhyw adeg ac yn unrhyw le, a gyda mynediad rhad ac am ddim i wifi ar draws y campws, gan gynnwys y neuaddau preswyl, byddwch chi wastad wedi'ch cysylltu!














# Undeb y Myfyrwyr

Mae Undeb Myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth yn sefydliad a arweinir gan fyfyrwyr ac a luniwyd i'ch cynorthwyo drwy gydol eich cyfnod yn y brifysgol.

Mae Undeb y Myfyrwyr (UM) yn rhan hanfodol o unrhyw brifysgol - mae'n rhoi llais i'r myfyrwyr yn y modd y caiff y Brifysgol ei rhedeg ac mae'n cynnig cyngor rhad ac am ddim, diduedd a chyfrinachol drwy ei gynrychiolwyr ymroddgar. Ond yn Aberystwyth mae Undeb y Myfyrwyr yn cynnig cymaint mwy ar ben hynny; mae ganddo dros 100 o glybiau a chymdeithasau i gysylltu myfyrwyr ag aelodau o'r un anian a gwneud ffrindiau am oes.

Llwyddiant ein UM yw'r myfyrwyr eu hunain, ac yn ystod eich cyfnod yn y brifysgol, cewch gyfle i ddylanwadu ar y ffordd y caiff ei redeg drwy etholiadau a'r cymdeithasau eu hunain.

Ac os nad oes yna rywbeth i chi a'ch ffrindiau? Mae hynny'n syml - bydd yr UM yn rhoi'r holl gyfarpar sydd arnoch ei angen i gychwyn eich clybiau a'ch cymdeithasau eich hunain ac yn eich helpu i ddod o hyd i'ch pobl chi.

# Chwaraeon a ffitrwydd

Amdani, Tîm Aber! Mae'r Undeb y Myfyrwyr (UM) yn cynnal dros 100 o glybiau a chymdeithasau chwaraeon, sy'n golygu bod rhywbeth at ddant pawb, p'un a ydych yn chwilio am grefft ymladd megis karate neu Taekwondo, chwaraeon tîm megis rygbi a hoci, neu rywbeth ychydig yn wahanol, megis dawnsio stryd, ffrisbi eithaf, leinin slac.

Os nad ydych wedi ystyried eich hun yn berson 'sborti' o'r blaen, efallai y gall un o'n clybiau eich helpu chi i newid eich meddwl. Mae clybiau'r UM yn rhoi cyfle perffaith i chi roi cynnig ar rywbeth newydd, gwella eich ffitrwydd, a chwrdd â phobl o'r tu allan i'ch swigen.

Ddim yn hoffi gemau tîm? Mae ein Canolfan Chwaraeon yn rhoi cyfle i chi hyfforddi'n gyfannol, gyda champfa, melinau troedio, pwll nofio, sawna ac ystafelloedd pwysau, gan gynnwys opsiwn i fenywod yn unig. Ond does dim rhaid i chi fynd ar eich pen eich hun - gallwch ymarfer corff ar y cyd mewn dosbarthiadau HIIT, Ioga, Pilates, Cylchred a llawer mwy.

Yn well na dim, os ydych chi'n byw yn y neuaddau preswyl, mae aelodaeth blatinwm i'r gampfa (gan gynnwys yr holl ddosbarthiadau, y pwll nofio a'r sawna) yn rhan o'ch rhent - cymorth i'ch ffitrwydd a'ch ffocws.



> Y peth gorau am astudio ym Mhrifysgol Aberystwyth oedd rhoi cynnig ar bethau newydd oedd yn anghyfarwydd i mi, megis chwarae pêl-fasged i'r Brifysgol, a gwneud ffrindiau newydd, ac mae llawer ohonynt yn dal i fod yn ffrindiau i mi heddiw.

Carys Jones, BA Cysylltiadau Rhyngwladol

# Cymdeithasau

Diben Undeb y Myfyrwyr (UM) yw dod â myfyrwyr ynghyd, gyda ffocws arbennig ar roi cyfle i fyfyrwyr o wahanol gyrsiau a meysydd pwnc - na fyddai eu llwybrau'n croesi fel arall - ddod i adnabod ei gilydd.

Dyma rai yn unig o'r cymdeithasau y gallwch ymuno â hwy:

## AberBalch

Mae AberBalch yn darparu cymorth i fyfyrwyr LGBTQ+, digwyddiadau yn y dydd a gyda'r nos, a digwyddiadau ymgyrchu.



## Cymdeithas Ffotograffiaeth

Dyma gyfle i wella'ch sgiliau neu feithrin rhai newydd yn y grŵp brwdfrydig hwn o ffotograffwyr a gwneuthurwyr ffilmiau, gan weithio gydag amrywiaeth o dechnolegau mewn gweithdai ac ar leoliad.

## Y Gymdeithas Gartwnau a Chomics

Dyma'r lle ar gyfer unrhyw beth sy'n ymwneud ag arch-arwyr, cartwnau dilynwyr a'r diwylliant poblogaidd. Maent yn sgrinio ffilmiau'n rheolaidd ac yn trefnu marathonau ffilm yn Sinema'r Commodore gerllaw.



## Cymdeithas y Gyfraith

Dyma un o'r cymdeithasau hynaf a mwyaf yn Aberystwyth.  Mae Cymdeithas y Gyfraith yn cynnig digwyddiadau rhwydweithio, gwerthiannau gwerslyfrau, yn trefnu ymweliadau â chwmnïau cyfreithiol a diwrnodau agored a Dawns Nadolig flynyddol. Mae cymdeithasau ar gael mewn pynciau eraill hefyd!

Mae ymrwymiad Aber i'r gymuned i'w deimlo ar ei gryfaf yng nghymdeithasau'r UM. Caiff y grwpiau hyn eu cynnal gan fyfyrwyr, i fyfyrwyr, ac mae rhywbeth at ddant pawb!



# Ffrwydrad o ddiwylliant

Oes gennych chi ddiddordeb mewn celf, diwylliant, cerddoriaeth a sinema? Mae gan Aberystwyth gymaint i'w gynnig - a llawer iawn o hyn i'w ganfod ar y campws ei hun!



## Canolfan y Celfyddydau

Canolfan Celfyddydau Prifysgol Aberystwyth yw un o'r lleoliadau mwyaf o'i fath yng Nghymru, ac mae'n cynnal pob math o ddigwyddiadau artistig a diwylliannol trwy gydol y flwyddyn. Mae rhai o'r rhain, megis perfformiadau a drefnwyd gan ein myfyrwyr Drama a Chelfyddydau Creadigol, yn cefnogi theatr llawr gwlad ac yn dathlu talent newydd. Mae eraill yn cynnwys sioeau teithiol gan fandiau, artistiaid, dawnswyr a grwpiau theatr.

Mae sinema fach glyd y Ganolfan hyd yn oed yn cynnal gwyliau ffilm, ac yn rheolaidd yn dangos clasuron cwlt.

> Roedd cael canolfan i'r celfyddydau ar garreg y drws yn ychwanegiad atyniadol hefyd - roedd modd i mi brofi amrywiaeth o berfformiadau teithiol arbennig o bob cwr o'r DU!

Melissa Vagg, BA Astudiaethau Drama a Theatr a Senograffeg a Dylunio Theatr

Mae Canolfan y Celfyddydau'n cynnig:

- cerddoriaeth fyw
- comedi
- theatr
- arddangosfeydd celf
- cyrsiau
- caffis
- a sinema fach

Cynhelir y perfformiadau yn neuadd gyngerdd y Ganolfan, sydd â seddi i 1,200, neu yn theatr 300 sedd y Ganolfan a'r stiwdio agos-atoch chi.



# Cerddoriaeth yn Aberystwyth

Mae’r ddarpariaeth gerddoriaeth yn Aberystwyth yn agored i’r holl fyfyrwyr. Pa bwnc bynnag yr ydych yn ei astudio, gallwch fod yn rhan o gymdeithas gerddorol fywiog.

Mae’r ddarpariaeth gerddoriaeth yn Aber wedi cychwyn ar gyfnod arloesol a chyffrous yn dilyn penodi cyfarwyddwr newydd, Iwan Teifion Davies, i arwain y ddarpariaeth i’r dyfodol mewn modd cynhwysol ac arbrofol, â’r gymuned yn ganolog iddi. Mae creu cerddoriaeth yn Aberystwyth yn dod â’r dref a’r brifysgol ynghyd i weithio mewn amrywiol ffyrdd ar ffurf ensemblau, cerddorfeydd, bandiau cyngerdd a chorau, yn ogystal â grwpiau llai sy’n canolbwyntio ar offerynnol penodol. Mae’r Brifysgol yn cynnig ystafelloedd a mannau ymarfer i fyfyrwyr ac aelodau o’r gymuned, grwpiau a digwyddiadau cerddorol, a cheir cyfleoedd i hyfforddi, datblygu’n gerddorol a pherfformio a chynhyrchu ar sawl lefel. Rydym hefyd yn hynod o falch ein bod yn gallu cynnig ystod o Ysgoloriaethau Cerdd sy’n rhoi’r cyfle i chi ymarfer amrywiaeth eang o sgiliau cerddorol yma yn Aberystwyth a’r tu hwnt. Os ydych yn ymddiddori mewn cerddoriaeth, ar ba bynnag ffurf neu arddull, mae croeso mawr ichi ei mwynhau gyda ni yma yn Aberystwyth.



# Mwy na 'bwyd i'r ymennydd' yn unig

Mae ein bwytai a'n caffis yn cynnig cynnyrch o ansawdd uchel, wedi'i brynu mewn modd cyfrifol, am bris fforddiadwy. Ein nod yw diwallu holl anghenion dietegol ein myfyrwyr, gan gynnig amrywiaeth eang o fwyd llysieuol, figan, halal a kosher, yn ogystal â dewisiadau i fyfyrwyr ag alergeddau ac anoddefiadau bwyd.

Gallwch nôl Starbucks o nifer o'n safleoedd, pigo byrbrydau a danteithion yn siop Undeb y Myfyrwyr neu eistedd i lawr i fwyta yng Nghanolfan y Celfyddydau, IBERBach neu yng nghaffi'r Undeb ei hun, Nosh Da.

Oherwydd bod mwy i fywyd prifysgol na dysgu academaidd yn unig, rydym wedi creu amrywiaeth o gynlluniau bwyd hyblyg a fydd yn eich helpu i ddysgu sut i gyllido ar gyfer siopa bwyd, cynnal deiet iach a byw ar fwy na dim ond pasta a phesto!

Rydym wedi gweithio'n galed i sicrhau bod ein consesiynau bwyd a diod mor foesegol a chynaliadwy â phosibl. Diolch i'n hymgyrch ledled y Brifysgol, Aberystwyth oedd y brifysgol gyntaf yn y byd i ennill statws di-blastig ar gyfer ei holl safleoedd! Rydym yn parhau i weithio'n galed i ddarganfod a datblygu mentrau newydd i leihau ein heffaith ar yr amgylchedd.

Mae ein holl fyfyrwyr yn cael 10% o ostyngiad ar fwyd a diodydd poeth yn yr holl safleoedd, ac rydym yn cynnig cerdyn teyrngarwch i gael rhagor o ostyngiadau hefyd. Gallwch lwytho arian ar eich cerdyn myfyriwr o flaen llaw (ffordd wych o helpu i reoli eich cyllideb!), gan ddefnyddio'r ap a grëwyd gennym i lwytho a monitro eich credyd.

Efallai eich bod yn rhy brysur i goginio?

Dim problem - mae Nosh Da yn dosbarthu i holl neuaddau preswyl y campws!



# Lles yw canolbwynt ein byd

Rydym yn ymroddedig i wneud yn siŵr bod pawb yn teimlo'n gartrefol, yn ddiogel ac wedi'u cynnal i gymryd rhan ym mhob agwedd ar fywyd prifysgol. Mae ein nod yn glir: darparu addysg ac ymchwil sy'n ysbrydoli mewn amgylchedd cefnogol, ac rydym yn ymdrechu i ymdrin ag anghenion ein holl fyfyrwyr â difrifoldeb a sensitifrwydd.



## Hygyrchedd

Mae ein hymgynghorwyr hygyrchedd yn ymroddedig i helpu myfyrwyr ag anableddau a gwahaniaethau dysgu. Wrth ystyried pa gwrs i wneud cais ar ei gyfer, ceisiwch feddwl am unrhyw agweddau a allai beri anawsterau penodol, neu cysylltwch â'r adran yn uniongyrchol i ofyn os nad ydych yn siŵr am unrhyw beth. Gall ein hymgynghorwyr hygyrchedd eich helpu â hyn hefyd - felly rhowch wybod i ni sut y gallwn eich helpu chi.

Os yw'n bosibl, rydym yn argymell ichi ymweld â champws y Brifysgol a'r adran sydd gennych dan sylw er mwyn gweld pa gymorth sydd ar gael. Bydd ein tîm o ymgynghorwyr hygyrchedd yn barod iawn i'ch helpu ar unrhyw adeg yn ystod eich cais, a gallant hefyd:

- drafod asesiad anghenion astudio
- rhoi cyngor ar grantiau, megis y Lwfans Myfyrwyr Anabl neu LMA
- trefnu hyfforddiant sgiliau astudio un-i-un a gweithwyr cymorth
- darparu cymorth a chefnogaeth ychwanegol i fyfyrwyr sydd wedi gadael gofal.

## Mentora gan gymheiriaid

Cynllun Ffordd Hyn yw ein cynllun cyfeillgar a chyfrinachol ar gyfer yr holl israddedigion newydd. Mae'n cynnig cyngor unigol i'ch helpu chi i ymgartrefu yn y Brifysgol.

## Nawdd Nos

Ein gwasanaeth gwrando annibynnol, Nawdd Nos, yw ein llinell gymorth gyfrinachol a gwasanaeth e-bost a negeseua gwib, a gaiff ei redeg gan dîm o fyfyrwyr hyfforddedig a all eich cyfeirio at wasanaethau ac adnoddau defnyddiol - neu fod yno i wrando.

## Gwneud cais i brifysgol

Yn olaf, nid yw ein cymorth lles wedi'i gyfyngu i'n myfyrwyr presennol. Rydym hefyd eisiau helpu darpar fyfyrwyr o bob cefndir i deimlo bod croeso a chymorth ar gael iddynt, a dyna pam yr ydym ni'n eich annog i gysylltu â'n tîm derbyn myfyrwyr os oes arnoch angen cymorth gyda'ch cais i brifysgol.

Gallant helpu i egluro'r broses derbyn myfyrwyr yn fanylach ac egluro gofynion a meini prawf gwneud cais ar gyfer ein cyrsiau.

Gall y broses o wneud cais ymddangos yn un anodd ond rydyn ni yma i helpu! Cysylltwch ag **ug-admissions@aber.ac.uk** i gael rhagor o wybodaeth.








# Dysgu sy'n para am oes

Pan fyddwch chi'n penderfynu i ba brifysgol yr ydych am fynd, mae'n naturiol i ganolbwyntio ar y pwnc yr ydych eisiau ennill gradd ynddo yn unig. Ond cofiwch - gall prifysgolion gynnig llawer mwy!

Gallech alw hyn yn ddysgu allgyrsiol, neu 'gyfannol' yn ôl rhai. Ond yn Aber, rydym yn ei alw'n Ddysgu Gydol Oes. Wedi'r cyfan, ydyn ni wir yn rhoi'r gorau i ddysgu?

Gellir astudio cyrsiau Dysgu Gydol Oes yn ychwanegol at eich gradd, ac maent yn cynnig cyrsiau addysg uwch achrededig a allai ategu eich astudiaethau, neu'ch tywys mewn cyfeiriad gwbl newydd - gan roi saib a phersbectif ffres i chi.

### Rydym yn cynnig cyrsiau ychwanegol mewn pynciau megis:

- Celf a Dylunio
- Ecoleg a Chadwraeth
- Ffotografiaeth
- Seicoleg

Gallwch hyd yn oed ddysgu iaith newydd, gan gynnwys Arabeg, Tsieineeg, Ffrangeg, Almaeneg, Eidaleg, Japaneeg, Rwseg a Sbaeneg!

Mae nifer o'n cyrsiau Dysgu Gydol Oes ar gael am ddim, ac mae eraill ar gael ar gyfraddau isel i'n myfyrwyr. Gall y cyrsiau hyn wneud i chi sefyll allan fel unigolyn, eich rhoi ar y blaen i'ch cystadleuwyr wrth ymgeisio am swyddi, ac agor eich meddwl i ffyrdd newydd o edrych ar y byd.

# Aberystwyth – Lleoliad Unigryw

Aberystwyth yw'r lle perffaith i astudio, cael hwyl a gwneud ffrindiau am oes. Dim ond tro byr ar droed i lawr Rhiw Penglais o'r campws yw'r dref. Mae popeth sydd ei angen i'ch bywyd fel myfyriwr yma mewn un lle, a'r cyfan yn cynnig golygfeydd ar y dref lan-môr hanesyddol.

### Mwynhau'r Awyr Agored

O gerdded i syrffio, o ddringo mynydd i hwylfyrddio, Aberystwyth yw eich lle i roi cynnig ar rywbeth newydd neu i barhau â champ rydych chi eisoes yn ei mwynhau.

### Dysgu am ein diwylliant a'n treftadaeth

Mae sawl safle o ddiddordeb hanesyddol yng nghalon Aberystwyth. Ceir adfeilion y castell canoloesol yng nghanol y dref, a bryngaer Pen Dinas o'r Oes Haearn gerllaw sydd yn lle perffaith i weld Aberystwyth o safbwynt gwahanol ac i fwynhau machlud haul syfrdanol.

### Pori drwy ein siopau annibynnol

Yn Aberystwyth, rydym yn falch o'n cymuned gref o siopau annibynnol a siopau dros dro. Crwydrwch drwy fwrlwm y dref i ddarganfod orielau celf, hen ddillad hardd, siopau trugareddau llawn persawr arogldarth.

### Byddwch yn rhan o'r profiad gorau i fyfyrwyr

P'un a ydych chi am ddawnsio tan yr oriau mân, gweld band neu berfformiwr newydd mewn gig agos-atoch, neu gael eich diddanu mewn noson gomedi, gallwch lunio'ch noson berffaith yn Aberystwyth.

















# Ymgeisio

## 1 Darganfod

Cewch bob math o wybodaeth am ein cyrsiau, llety, costau a bywyd prifysgol yn gyffredinol ar ein gwefan (a hyd yn oed yn y canllaw hwn!), neu ar-lein.
Os hoffech ddysgu am y brifysgol o safbwynt myfyriwr, ewch ar fforymau ar-lein megis The Student Room.

## 2 Ymweld

Beth am ddod i Ddiwrnod Agored? Yma cewch gyfle i weld y Brifysgol a'r dref drosoch eich hun. Byddwch yn cwrdd â darlithwyr, myfyrwyr ac yn gweld ein holl gyfleusterau arbennig, a fydd yn rhoi blas i chi o sut brofiad fyddai treulio'r blynyddoedd nesaf yma!

## 3 Ymgeisio

Pan fyddwch yn gwybod beth yr hoffech ei astudio, gallwch wneud cais drwy UCAS. Gwnewch yn siŵr eich bod yn anfon eich cais cyn y dyddiad cau.

## 4 Paratoi

Os cewch eich gwahodd am gyfweliad, byddwch yn cael neges e-bost gennym. Bydd yr holl wybodaeth ynghylch sut i gyrraedd yma, beth fydd yn digwydd a beth fydd angen i chi ddod gyda chi yn yr e-bost, felly gallwch chi ganolbwyntio ar roi'r argraff gywir.

## 5 Aros

Rydyn ni'n gwybod ei bod hi'n anodd, ond ar ôl cyrraedd y cam hwn, mater o aros yw hi. Mae timau derbyn myfyrwyr ar hyd a lled y wlad yn gweithio'n galed i brosesu eich ceisiadau mor gyflym â phosibl, a chewch wybod am unrhyw benderfyniadau UCAS Track. Fe ddaw ateb cyn hir!

## 6 Penderfynu

Pan fyddwch wedi cael ymatebion gan eich prifysgolion, bydd angen i chi ddewis prifysgol 'cadarn' ac 'wrth gefn'. Eich dewis cadarn fydd y brifysgol y byddwch chi'n mynd iddi os cewch chi'r graddau angenrheidiol. Dyma'r amser perffaith i fynychu Diwrnod Ymweld i Ymgeiswyr, yn enwedig os nad ydych wedi ymweld â'r campws o'r blaen. Fe fyddwch chi wrth eich bodd!

## 7 Canlyniadau

Mae'n ddiwrnod mawr, ond gobeithio y cewch chi'r graddau angenrheidiol. Gwiriwch UCAS Track i weld a ydych chi wedi cael eich derbyn gan eich dewisiadau terfynol. Os nad ydych chi, peidiwch â phoeni. Nawr yw'r amser i gysylltu â ni, oherwydd efallai fod gennym leoedd ar gael ar raglenni tebyg drwy'r broses Glirio.

## 8 Cyrraedd

Da iawn - mae cael lle mewn prifysgol yn gam enfawr! Gall cyrraedd y brifysgol fod yn ddryslyd: mae'n rhaid i chi symud i'ch llety, cofrestru ar eich cwrs a gwneud ffrindiau newydd! Ond peidiwch â phoeni, mae ein staff a'n myfyrwyr yma i'ch tywys bob cam o'r ffordd, ac yn ystod Wythnos y Glas bydd modd i chi ddysgu mwy am y clybiau a'r cymdeithasau, dod o hyd i'ch ffordd o amgylch y campws ac ymgartrefu i'r bennod newydd gyffrous hon yn eich bywyd.

# Gwneud Datganiad

Wrth wneud cais i brifysgol, bydd angen i chi ysgrifennu datganiad personol. Mae UCAS yn gofyn am 4,000 nod neu 47 llinell o destun - sef tua 600 gair yn fras. Efallai fod hyn yn swnio fel llawer o eiriau, ac efallai mai dyma'r tro cyntaf i chi ysgrifennu rhywbeth fel hyn, felly mae'n syniad da i gynllunio o flaen llaw!

1. Dim ond un datganiad personol y byddwch chi'n ei ysgrifennu, a chaiff hwn ei anfon i'r holl brifysgolion y byddwch chi'n gwneud cais iddynt, felly peidiwch â chrybwyll enw unrhyw brifysgol benodol.
2. Darganfyddwch fwy am y cyrsiau yr ydych yn gwneud cais amdanynt: defnyddiwch wybodaeth o wefannau, prosbectysau a chyfrifon cyfryngau cymdeithasol swyddogol i weld pa rinweddau y mae'r prifysgolion yn chwilio amdanynt.
3. Gofynnwch i'ch hun: sut mae eich astudiaethau mwyaf diweddar wedi'ch paratoi ar gyfer y cwrs? Beth hoffech chi ei elwa o astudio am radd?
4. Beth arall sy'n eich gwneud yn ymgeisydd da i brifysgol? Meddyliwch am swyddi, lleoliadau, profiad gwaith, gwaith gwirfoddol, a hyd yn oed eich diddordebau.
5. Byddwch yn benodol: peidiwch â gwastraffu geiriau yn gwneud datganiadau cyffredinol a allai fod yn berthnasol i unrhyw un, neu ddefnyddio 'iaith fusnes'. Rhowch enghreifftiau o'ch bywyd eich hun.
6. Gwnewch eich pwyntiau'n gyflym a chlir, a pheidiwch ag ailadrodd eich hun.
7. Meddyliwch am y traethodau yr ydych yn eu hysgrifennu nawr: mae gan y rhai gorau gyflwyniad a chasgliad, ac maent wedi'u strwythuro'n dda drwyddynt draw. Defnyddiwch eich casgliad i atgyfnerthu eich cais, nid i'w grynhoi'n unig.



## Cofiwch

**ddangos fod gennych ddiddordeb:**
Peidiwch â disgrifio'r cwrs yn unig, ond dywedwch pam yr ydych chi eisiau ei astudio! Mae tiwtoriaid derbyn wrth eu bodd â brwdfrydedd.

**rhoi digon o amser i'ch hun:**
Gosodwch rai dyddiadau cwblhau ar gyfer drafftiau ymhell o flaen y dyddiad cau ar gyfer gwneud cais. Pan fydd eich holl syniadau i lawr ar bapur, bydd popeth yn teimlo'n fwy posibl!

**gwirio, gwirio a gwirio eto:**
Pan fyddwch wedi gorffen, arhoswch am ddiwrnod neu ddau, yna ewch yn ôl i'w ddarllen eto. Darllenwch ef yn uchel, darllenwch ef ar bapur, a gofynnwch i ffrindiau a theulu i'ch helpu i ddod o hyd i gamgymeriadau teipio ac unrhyw rannau nad ydynt yn gwneud synnwyr.

## Osgowch

**ddweud celwydd:**
Mae'n swnio'n amlwg, ond bydd ambell i 'gelwydd golau' yma ac acw yn dod i'r golwg yn y pen draw.

**copïo:**
Rheol gyntaf y brifysgol yw ei bod yn rhaid i'ch holl waith gael ei wneud gennych chi eich hun. Dechreuwch gyda'ch datganiad - cofiwch mai datganiad personol yw hwn i fod!

**mynd i banig:**
Efallai mai hwn yw'r tro cyntaf i chi wneud cais am rywbeth yn ffurfiol. Ond peidiwch â phoeni - mae'r tîm derbyn myfyrwyr yn deall hyn, ac rydym ni i gyd wedi bod yn yr un cwch! Cynlluniwch beth yr hoffech ei ddweud, byddwch yn falch ohonoch eich hun a chadwch yn bositif.






Prifysgol Aberystwyth
Aberystwyth
DU
SY23 3DD

+44 (0) 1970 622021
+44 (0) 1970 623111

derbyn-israddedig@aber.ac.uk

/Prif.Aberystwyth
@prifysgol.aberystwyth
@Prifysgol_Aber
/prifysgolAberystwyth

Wedi'u dylunio a'u cynhyrchu gan Marchnata a Denu Myfyrwyr,
Prifysgol Aberystwyth 2022.

Argraffwyd ar bapur
wedi'i ailgylchu 100%